

Gan ystyried y berthynas rhwng cynllunio iaith, datblygu cymunedol a datblygu economaidd, dadansoddwch yn feirniadol gynllun/iau presennol gan gyrff cyhoeddus I hyrwyddo'r Gymraeg. Dylech roi sylw i elfennau strategaeth, polisi a gweithredu.

Bwriedir trafod y berthynas rhwng cynllunio cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn Heddlu Dyfed-Powys. Trwy gydol y traethawd, cyfeirir at ymdrechion i ddiogelu a datblygu'r Gymraeg ymhlith y Macro, sef y Llywodraeth; y Meso, sef Heddlu Dyfed-Powys; a'r Micro, sef defnyddwyr y gwasanaeth a gweithlu'r Llu (Kaplan a Baldauf, 1997). Wrth gychwyn ar astudio'r cwrs, gwelir dylanwad sylweddol ffactorau economaidd ar gynlluniau i adfer y Gymraeg (Lewis, 2023). Yn ogystal â chyfeirio at gynlluniau sy'n annog datblygiad economaidd yn y maes, bwriedir archwilio arwyddocâd arweinyddiaeth i ymgorffori tri thema Cymraeg 2050 sef 'Trosglwyddo', 'Defnyddio' a 'Chreu Amodau Ffafirol' wrth gefnogi trigolion Ardal Blismona Leol (ABL) y Llu (Llywodraeth Cymru, 2017; Lewis, 2023; Heddlu Dyfed Powys, 2024 a).

Cychwynnir trwy amlinellu strwythur llywodraethu plismona yng Nghymu, sy'n wahanol i'r meysydd astudiwyd eisioes oherwydd yn wahanol i nifer o'r meysydd a astudiwyd hyd hyn, nid yw plismona wedi'i datganoli i Gymru (Jones et al., 2022). Yna, defnyddir data ffynhonnellau megis Strategaethau Cymraeg mwyaf diweddar y Llu, yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifiad i archwilio i ba raddau mae sgiliau Cymraeg Heddlu Dyfed-Powys yn cynrychioli'r siaradwyr Cymraeg yr ABL (Llywodraeth Cymru, 2022; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; 2024 b). Wedi hynny, ymlleuthir ar gynlluniau i ddatblygu'r Gymraeg yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu (CGH) cyn trafod dyfodol y Gymraeg yn y Llu.

‘Creu Amodau Ffafirol’ i'r Gymraeg ym Mhlisona

Amlinella ddamcaniaethwyr mai gyda'r Macro yn aml mae'r grym a chyllid er mwyn 'Creu Amodau Ffafirol' sy'n galluogi'r Gymraeg ffynnu ar lawr gwlad (Kaplan a Baldauf, 1997; Llywodraeth Cymru, 2017; Brooks, 2025). Ers cychwyn ar astudio'r maes, ymchwiliwyd polisiau ac adroddiadau seiliedig ar faterion Cymraeg ystod o gyrff cyhoeddus. Yn aml, oherwydd ymddangosa'r Gymraeg mewn deddfau a pholisiau megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, treuddia'r Gymraeg drwy bolisiau o amaeth i addysg (Llywodraeth Cymru, 2015; Llywodraeth Cymru, 2023; Senedd Cymru, 2024). Wrth ymchwilio, mae ymdeimlad fod addysg yn hawlio'r sylw wrth fynd i'r afael ag uchelgais 'Miliwn o Siaradwyr' Prosiect Cymraeg 2050 (Llywodraeth Cymru 2017; Gruffudd-Jones, 2025; Brooks, 2025). Serch hynny, yng Nghynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg, cyhoeddwyd gweledigaeth sef "creu Cymru lle gall pobl fyw eu bywydau yn Gymraeg", sy'n cynnwys gwella ansawdd y Gymraeg ond hefyd annog defnydd yr iaith yn y gweithle sy'n berthynasol i'r cyd-destun dan sylw (Gruffudd-Jones, 2025). Gellir ystyried bod y thema'n mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn defnydd siaradwyr wrth iddynt adael yr ysgol a chychwyn ar eu gyrfaoedd (Llywodraeth Cymru, 2022; Gruffudd-Jones, 2025).

Cychwynnir gyda thema olaf prosiect Cymraeg 2050 sef 'Creu Amodau Ffafirol' i'r iaith ohewrydd heb yr amodau cywir, byddai'n heriol i gyflawni'r dau thema cyntaf (Llywodraeth Cymru, 2017). Wrth ymchwilio'r Gymraeg ym mhlismona, teimla'r naratif yn wahanol i'r meysydd astudiwyd eisioes, o bosib oherwydd nid yng Nghaerdydd gwnaed y penderfyniadau ynghylch plismona, ond yn San Steffan gyda Llywodraeth y Derynas Unedig (Jones et al., 2022). Wrth ddarllen am y maes, sylwyd atseinion hen naratifau yr ugeinfed ganrif hwyr mewn nifer o'r erthyglau ynghylch y maes megis colled grym nifer o ddeddfau'r gyfraeth a chosb yng Nghymru wedi'r Deddfau Uno'r unfed ganrif ar bymtheg (Jones et al., 2022). Serch hynny, rhybyddiwyd i beidio gor-bwysleisio negeseuon y gorffennol wrth drafod yr iaith; ond yn hytrach canolbwyntio ar ei dyfodol (Evas, 2025).

Heb os, yn dilyn Mesur y Gymraeg (2011), mae Safonau'r Gymraeg yn diogelu'r iaith yn gyfreithiol mewn cyrff cyhoeddus gan gynnwys yr Heddlu yng Nghymru (Dyfed-Powys Police, 2024; Gruffudd-Jones, 2025). Er gwaetha'r modd, dadleuir mai parhau'n anweladwy y mae Cymru o fewn y system dan sylw gyda rhai adroddiadau'n cynnwys ystadegau Cymru fel rhan o Loegr (Jones et al., 2022). Cymlethu'r sefyllfa'n fwy wnaeth Pandemig COVID-19 oherwydd natur annatod cyd-weithio rhwng plismona a rhandeiliaid allannol, megis cyrff iechyd a gofal (Knepper, 2007 yn Jones et al., 2022). Serch hynny, amlygwyd y Pandemig heriau oherwydd ysgrifennwyd nifer o bolisiau cysylltiedig â'r argyfwng yng Nghymru ond yn San Steffan ysgrifennwyd polisiau plismona wnaeth uwchleuo anghysondeb a dryswch (Jones et al., 2022).

Corff cyhoeddus sydd wedi cydweithio gyda'r Comisiynydd i greu Polisi Cymraeg ydy'r Coleg Plismona, sef corff annibynnol y Macro sy'n gweithredu dros blismona yng Nghymru a Lloegr (College of Policing, dyddiad anhysbys; 2025). Gellir ystyried dylanwad sylweddol y Coleg ar blismona wrth ystyried gyda nhw mae cyfrifoldeb y Côd Moseg (College of Policing, 2024). Yn ogystal, treuddia nifer o flaenoraethau'r Llywodraeth trwy eu polisiau ac yna ymlaen i'r lluoedd (College of Policing, dyddiad anhysbys). Er datgana Bolisi Cymraeg y Coleg fod yr iaith yn cael ei thrin yn hafal i gymharu gyda'r Saesneg, mae yna ymdeimlad mai ewyllus da oedd ei greu (College of Policing, 2021). Cwestiynir i ba raddau ymgorfforir y Gymraeg yn eu hymarfer o ddydd i ddydd oherwydd ni ymddangoswyd ystyriaeth tuag at yr iaith na'i defnyddwyr mewn nifer o bolisiau ehangach (College of Policing, 2023). Er gwaetha dyfyniad y Côd Moseg 'Doing the right things, in the right way, for the right reasons' ynghyd â'r ffaith dilynir model 'plismona gyda chydysyniad'; ystyrir arwyddocâd cynnwys y Gymraeg mewn polisiau i fagu hyder ac ymddiriedaeth pob cymuned gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru (College of Policing, 2023; 2024; Dyfed-Powys Police, 2024).

Cefnogir y syniad i ddatganoli plismona i Gymru gan sawl Comisiwn sydd wedi digwydd eisioes yn yr Alban (Jones et al., 2022; Foulkes & Ackland, 2024). Er o bosib, ni fyddai newid o ran sefyllfa'r iaith oherwydd y Safonau Cymraeg, gellir dadlau byddai'n sicrhau fod heriau cymunedau Cymru wrth wraidd plismona (Jones et al., 2022). Dadleuir byddai'r ddarpariaeth yn fwy effeithiol a pherthnasol gan fod gwahaniaethau sylweddol rhwng demograffeg a thirlun y ddwy wlad megis gwahaniaeth o 50 miliwn rhwng y ddwy boblogaeth (Donnelly a Scott, 2008 yn Jones et al., 2022; Office for National Statistics, 2024 a). Yn ogystal, amlygwyd gwahaniaethau mawr rhwng y lluoedd gan fod pedair gwaith yn fwy o luoedd rhanbarthol yn Lloegr gyda dros 130,000 o swyddogion i gymharu â thua 7,000 yng Nghymru (Jones et al., 2022).

Heddlu Dyfed-Powys a'i Ardal Blismona Leol

Cyn ymllethu'n fanylach ar sefyllfa'r iaith yn Heddlu Dyfed-Powys, amlinellir strwythur y gweithlu. Cyfloga'r Llu 2,254 o bobl gan gynnwys 1,310 Swyddog yr Heddlu a 785 Staff (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Yn ogystal, gwirfoddola tua 150 o bobl gan gynnwys 98 Cwnstabl Gwirfoddol (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Ymestyna ABL y Llu dros hanner dir Cymru gan gynnwys Siroedd Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Benfro (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Gweithia rai Staff a Swyddogion ar y rhanbarth sy'n golygu eu bod yn gweithio mewn gorsafoedd Heddlu yn yr ABL ac eraill yn gweithio yn y Pencadlys yng Nghaerfyrddin (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Ers y Pandemig, gweithia fwyfwy o adref (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Wrth ystyried Swyddogion yr Heddlu, mae yna hierarchaeth o ran eu rhengoedd gyda'r Prif Gwnstabl a thîm y Prif Swyddogion, sy'n gymysg o ran Swyddogion a Staff wrth y llyw. Wrth gychwyn gyda'r Llu, cyhoeddwyd prif amcanion gan y Prif Gwnstabl (Jones, 2011). Wrth gymryd at y llyw, penderfynwyd cynnwys amcan gan Dr Richard Lewis sef 'creu gweithlu dwyieithog' (Jones, 2021).

Rwy'n teimlo'n angerddol am ein gweledigaeth o ddod yn wasanaeth heddlu gwbl ddwyieithog. Mae'r Gymraeg ... yn iaith fusnes ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â'r rhai sy'n cysylltu â'r Heddlu.

Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis yn Heddlu Dyfed Powys, 2024 a: 2
Yn ogystal â dylanwad y Prif Gwnstabl, cydweithia Gomisiynydd Heddlu a Throseddau a'i swyddfa'n agos gyda'r Llu (Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner, 2025 a). Etholir y Comisiynydd i gynrychioli 'llais y cyhoedd' a chadw'r Prif Gwnstabl yn atebol i'w addewydion trwy bennu blaenioraethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddau (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner, 2025 a; 2025 b). Er ni ymhleithir mwyach ar ei rôl yn ystod y traethawd, cefnogir hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan annatod o flaenioraethau Cynllun (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner, 2024). Cyfeirir at ymdeimlad moesol gan y Prif Gwnstabl i adfer y Gymraeg o fewn y gweithle yn ogystal â chymorth a chynrychioli trigolion yr ABL (Jones, 2021). Atega'r ffaith fod nifer yn teimlo'n fwy gysurus i gyfathrebu trwy gyfrwng yr iaith gyntaf; sydd aml yn iaith leiafrifol (Davies, 1994 in Madoc-Jones and Buchanan, 2004).

Er mwyn monitro i ba raddau cynrychiola'r gweithlu siaradwyr Cymraeg yr ABL, mae'n ofynnol i weithiwr hunanasi eu medrau Cymraeg yn flynyddol; sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safon Cymraeg 96 yn ogystal (Dyfed-Powys Police, 2024; Comisiynydd y Gymraeg, 2024). Lefel 1 ydy'r safon Gymraeg ddisgwyliedig ar gyfer y Llu, a adlewyrchir wrth hysbysebu'r mwyafrif llethol o swyddi (Gweler Atodiad 1; Dyfed-Powys Police, 2024; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Er nid yw'r wybodaeth wedi'i chyhoeddi'n swyddogol, wrth gychwyn gyda'r Llu, llwytha'r gweithlu eu medrau Cymraeg yn uniongyrchol ar raglen arbennig sy'n cyfateb gyda'r system sy'n cyhoeddu'r rota ar gyfer y gweithlu cyfan yn ddyddiol. Mae'r wybodaeth yn annatod bwysig er mwyn dangos pa weithwyr sydd ar gael a'u sgiliau unigryw, gan gynnwys eu sgiliau Cymraeg. Serch hynny, amlinellwyd ond wrth gychwyn gyda'r Llu mae unigolyn fel arfer yn llwytho'u sgiliau Cymraeg ar y system; sy'n golygu nid yw'r data'n gyfredol bob tro. Serch hynny, mae'r camau a rhoddir yn eu lle i weld yn llwyddo i fynd i'r afael â'r niferoedd sydd heb gofnodi eu sgiliau Cymraeg, megis y mewnbwn fel rhan o wythnos anwytho Staff a Swyddogion newydd (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b). Serch hynny, dadleuir byddai cofnodi'r wybodaeth yma fel rhan o gynllun gweithredu'r Strategaeth Cymraeg yn annog fwy fyth o gydweithrediad.


	May-16	May-17	May-18	Mar-19	Jun-19	May-20	May-21	May-22	May-23	April-24
Level 0	355	352	322	284	277	256	252	271	211	227
Level 1	449	537	557	603	600	630	683	771	893	888
Level 2	414	425	400	407	406	395	392	401	405	390
Level 3	204	233	236	242	240	250	259	250	257	257
Level 4	163	203	191	194	191	195	200	204	204	197
Level 5	271	276	253	241	240	244	249	256	264	261
Not stated	122	285	112	88	92	94	92	86	44	42
Total	1978	2311	2071	2059	2046	2064	2127	2239	2278	2262

Tabl 1: Niferoedd Siaradwyr Cymraeg y Llu

Ar gael : Adroddiad Blynnyddol 2023 - 2024 (Cychwyd gan Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b: 9)

Nid yw'r lefelau'n unigryw i Heddlu Dyfed-Powys, ond defnyddir gan y gwasanaethau brys ledled Cymru i gysoni medrau Cymraeg mewn achos o ddigwyddiad amlasiantaethol (Yr Iaith ar Waith, 2025). Er gwaetha'r angen i allu cynnig gwasanaeth Cymraeg i drigolion yr ABL, ond pum swydd sy'n bodoli gyda'r gallu i gyfathrebu i Lefel 5 yn ofynnol, sef rhuglder yn y Gymraeg (Heddlu Dyfed-Powys, 2023). Ymsefydliwyd 'Yr Iaith ar Waith' sef grŵp gweithio sy'n agored i bawb yn y

gweithlu fynychu (Dyfed-Powys Police, 2024). Bwriad y grŵp ydy cymorth ac ymgynghori'r tîm Cymraeg wrth fynd i'r afael ag amcanion y Prif Swyddogion yn sgil y Gymraeg er fudd y gweithlu a thrigolion yr ABL (Heddlu Dyfed-Powys, 2023; 2024 a; 2024 b). O ganlyniad i'w statws fel un o brif amcanion y Prif Gwnstabl, ymddangosa 'Datblygu'r Gymraeg' fel rhan o'r DAP sef Proffil Datblygu Proffesiynol y gweithlu (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b). Disgwylir i gyflogai bennu targedau ar y cyd gyda'u goruchwylwyr sy'n ategu amcanion y Prif Gwnstabl; gan gynnwys sut maent yn datblygu eu medrau neu ddefnydd o'r Gymraeg (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b). Wrth gwblhau'r DAP bob blwyddyn, rhaid aillfewnbynnu medrau Cymraeg i'r system. Serch hynny, mae'r wybodaeth yma'n gudd i bawb heblaw'r unigolyn a'r goruchwylwr. Argymhellwyd manteisio ar y cyfle i annog goruchwylwyr gasglu'r wybodaeth yma fel rhan o gyfarfodydd y DAP, fyddai'n datrys yr her ynghylch casglu gwybodaeth gyfredol a nodwyd eisioes (Comisinydd y Gymraeg, 2024). Mae'n annatod bwysig i feddu ar ddata cyfoes i sicrhau darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i reiny sy'n dymuno heb oedi, nid ond er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau ond hefyd eu hawliau (Llywodraeth Cymru, 2017; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; 2024 b).



Ffigwr 1: Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru
Ar gael : <https://www.gov.wales/welsh-language-wales-census-2021- html>.
(Cyrchwyd: 06 Rhagfyr 2022)

Tabl 2: Gwybodaeth demograffeg yr Ardal Blismona Leol a'r Gweithlu			
	Dwysedd y poblogaeth mewn ardal maint cae pêl-droed	% Siaradwyr Cymraeg y Sir	% Siaradwyr Cymraeg yn Rhanbarthoedd Heddlu Dyfed-Powys
Ceredigion	0.3	45.3	49
Powys	0.2	16.4	14
Sir Benfro	0.5	17.2	14
Sir Gaerfyrddin	0.6	39.9	44
Canran ar Gyfartaledd ar gyfer y Llu		30	31
ONS (2023 a, b, c, ch); Heddlu Dyfed-Powys (2024 b)			


Canfuwyd bod hi'n debygol ddod o hyd i nifer o'n cymunedau Cymraeg mewn ardaloedd gweledig sy'n ategu demograffeg ABL y Llu, sef y Micro yn y cyd-destun dan sylw (Kaplan and Baldauf, 1997; Llywodraeth Cymru, 2017; ONS, 2023 a, b, c, ch; Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024; gweler Tabl 2). Dengys y data isod fod dwy Sir o fewn yr ABL yn cael eu hystyried fel Cadarnleoedd; sef Sir sy'n meddu ar ddwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn hafal i 40% o'r

poblogaeth neu fwy (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024). Serch hynny, camsyniad byddai datgan mae ond yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion y mae'r cymunedau Cymraeg eu hiaith gan fod dwysedd gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg ledled yr ABL, megis yng ngogledd Sir Benfro (Llywodraeth Cymru, 2022; Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024).

Mae poblogaeth y Llu'n amrywio tipyn yn ystod y flwyddyn, oherwydd yn ogystal â 516,000 o drigolion arferol yr ABL, chwydda'r boblogaeth yn sylweddol yn ystod tymor yr haf oherwydd y nifer o dwristiaid sy'n ymweld â'r ardal (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Atega'r data gyda'r hyn a amlinella adroddiad Cymraeg 2050 sef fod economi cymunedau Cymraeg eu hiaith aml yn dibynnu ar y sector cyhoeddus, amaeth a thwristiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017; Llywodraeth Cymru, 2022; Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024; Sion, 2024).

Nid yw hyrwyddo'r Gymraeg ond yn gwella'r gwasanaeth a ddarparir i'r cyhoedd ond hefyd yn creu amodau i annog y gweithlu i'w defnyddio yn ogystal (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; 2024 b). O ganlyniad, gellir ystyried y gweithlu fel y Micro hefyd, oherwydd amlinella ddyfyniad uchod y Prif Gwnstabl ei awydd i glywed y Gymraeg fel iaith fusnes (Kaplan a Baldauf, 1997; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Wrth ddefnyddio rheol y Cadarnleoedd, gellid ystyried gweithlu Ceredigion a Sir Gaerfyrddin fel ardal ddwysedd uwch o siardwyr Cymraeg gan fod y canran yn uwch na'r lefel cymunedol (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b). Serch hynny, wrth drin y data yn sgil yr Heddlu, deellir bod y ffugurau'n ddynameg oherwydd er mae medrau Cymraeg Swyddog yn perthyn i ystadegau rhanbarth ei orsaf, o ddydd i ddydd gellir teithio rhwng rhanbarthoedd i gymorth unrhyw gymuned o fewn y Llu (Iaith ar Waith, 2025). Mewn sgysiau anffurfiol gyda Swyddogion, amlinellwyd yr her sy'n codi ynghylch creu rota sy'n sicrhau fod digon o Swyddogion cyfrwng Cymraeg ar gael yn gyson i gynrychioli medrau Cymraeg cymunedau eu hardaloedd ar bob adeg.

Wrth astudio'r maes, does dim amheuaeth ynghylch dylwanwad sylweddol ffactorau economaidd ar adfer iaith (Jones, 2021; Grenoble a Whaley, 1998; Baker, 2011 yn Lewis, 2023). Amlinella Dr Huw Lewis (2023) ddylanwad iaith ar yr economi ar 'Lefel Gymdeithas' wrth holi i ba raddau mae medrau Cymraeg yn dylanwadu ar berfforiad economaidd ardal. Gellid ystyried perthynas rhwng daearyddiaeth gorllewinol Cadarnleoedd y Gymraeg gyda'r ffaith fod y cyflog aml yn is yn yr ardaloedd hynny (StatsWales, 2024). Er ni ymleuthwyd yn fwy yn ystod y traethawd, byddai'n ddiddorol cymharu ystadegau lluoedd Cymru i archwilio a oes perthynas yn ymddangos rhwng eu medrau ieithyddol a'u cyflogau (Lewis, 2023).




Ffigur 2: Strubell, 2001 yn Jones a Llwyd, 2024

Yn wahanol i'r berthynas rhwng yr iaith a'r economi, gellir ystyried dylanwad yr economi ar iaith yn ogystal (Lewis, 2023). Hoffwn archwilio'r data'n fwy i ddarganfod a oes perthynas rhwng rheng neu radd cyflog a medrau Cymraeg o fewn y lluoedd yng Nghymru (Lewis, 2023). Cynllun gellir ystyried ydy defnydd y DAP fel tystiolaeth yn ystod proses ddyrchafu'r Swyddogion (Iaith ar Waith 2025). Does dim amheuaeth ynghylch dylanwad cadarnhaol y DAP ar godi statws y Gymraeg fel rhan o'r broses ddyrchafu oherwydd mae'r chwant am hyfforddiant wedi cynyddu'n sylweddol ers cyhoeddi amcanion y Prif Gwnstabl (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). Ar hyn o bryd, o fewn y cyfweiliad, nid oes disgwyliad neu gwestiwn penodol am ddefnydd y Gymraeg tu hwnt i gyfarchion (Iaith ar Waith, 2025). Er gellid barnu fod y Gymraeg yn docynistaidd o fewn y broses, penderfynwyd gan mai ond Lefel 1 yw'r lefel ddisgwyliadol ar gyfer y Llu, teimlwyd ni ellid asesu i safon uwch yn ystod y cyfweiliadau (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b; Iaith ar Waith, 2025). Gwelir meddylfryd Olwyn Dân Strubell (2001) ar waith o achos defnyddioldeb yr iaith fel rhan o'r broses dan sylw, ceir effaith cadarnhaol ar y rheng flaen oherwydd mae gwell gymhelliant i ddysgu'r iaith wedi codi chwant am hyfforddiant (Llywodraeth Cymru, 2017; Jones a Llwyd, 2024). Serch hynny, diddorol byddai profi pa mor ddylanwadol ydy'r berthynas rhwng defnyddioldeb y Gymraeg ar gyfer dyrchafiad pe bai'r defnydd o'r DAP o fewn y broses newid.

Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu

Cynllun arall gweithredwyd yn y Llu i gymorth trigolion yr ardal a chydymffurfio gyda Safon Cymraeg 97 ydy ymestyn cyfleoedd i'r gweithlu fynychu hyfforddiant Cymraeg (Comisiynydd y Gymraeg, 2024). Yn sgil hyn, cyhoeddwyd Polisi Hyfforddiant Cymraeg yn y Llu yn 2017 ac ers hynny, mynychwyd hyfforddiant Cymraeg gan gannoedd o weithwyr (Heddlu Dyfed-Powys, 2023; 2024 b). Model a hybir gan hyfforddwyr arweinyddiaeth y Llu ydy Model Newid Satir (1991) sy'n amlinellu'r camau cyffredin y mae gweithwyr yn profi wrth i arweinwyr weithredu newidiadau mewn sefydliad (yn Freeman-Gray, dyddiad anhysbys). Er gwaetha sibrydion o bryder ymhlith y gweithlu ar y cychwyn, hyd a gwn i nid oedd anhrefn amlwg wrth gyhoeddi'i weledigaeth sydd o bosib yn adlewyrchu normalrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Llu (Satir, 1991 yn Freeman-Gray, dyddiad anhysbys; Jones, 2021; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a).

Ers cychwyn fel Tiwtor Cymraeg y Llu yng Ngwanwyn 2023, darparwyd hyfforddiant Cymraeg i



Ffigwr 3: Model Newid Satir

Ar gael : <https://mutomorro.com/satir-change-model/> (Cyrchwyd: dyddiad anhysbys)

dua thri chant o weithwyr (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b). O ganlyniad, o bosib gellir ystyried y cynllun sef darparu hyfforddiant Cymraeg mewnol fel y 'Syniad Gweddnewidol' wnaeth alluogi'r

gweithlu weithio tuag at y 'normal-newydd' sef 'creu gweithle dwyieithog' (Heddlu Dyfed-Powys, 2023; 2024 b). Wrth ddarparu hyfforddiant yn fewnol, ceir cyfle i greu cyrsiau sionc a hyblyg sy'n llwyddo i weithio o amgylch patrymau amrywiol y gweithlu ond hefyd darparu hyfforddiant pwrpasol a pherthnasol i swyddi penodol (Heddlu Dyfed-Powys, 2023; 2024 a; 2024 b). Er mae'n gymharol syml i fonitro'r niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant, mae'n fwy heriol i fonitro defnydd o'r Gymraeg (Lewis yn Jones, 2021). Wrth gychwyn ar fy swydd, gofynwyd i mi flaenioraethu darpariaeth yn y Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu (CGH). Er gwaethaf awydd rheolwyr yr adran i 'creu amodau ffafriol' i wella'r gwasanaeth Cymraeg, profodd gweithredu unrhyw gynlluniau'n heriol. Parhau y mae'r her o fewn yr adran, yn bennaf, oherwydd natur pedair awr ar hugain y gwaith; patrymau 'shifts'; a sichrau cyflwenwad digonol y staff i ateb y miloedd o alwadau sy'n cyrraedd y Ganolfan yn ddyddiol (Llywodraeth Cymru, 2017; Iaith ar Waith, 2025).

Er nid yw'n ofynnol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer galwadau 999, mae'n anghenrheidiol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg ar gyfer galwadau 101 (Gov.Uk, 2018; Comisiynydd y Gymraeg, 2024). Serch hynny, er gwaethaf defnyddioldeb sgiliau Cymraeg i ymateb i'r heriau sy'n codi o ddydd i ddydd o ganlyniad i natur rheng flaen yr adran, ni ymddangosir ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Cymraeg y Llu (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; Yr Iaith ar Waith, 2025; gweler Atodiad 2).

As often the first point of contact between the public and the police, call handlers do a very difficult job and need to be equipped ... to help protect the public from harm.

IOPC, 2023

Er canfuwyd ni ddylai rwystrau gwynebu defnyddwyr rhag derbyn gwasanaeth Cymraeg, wedi treulio bore'n arsylwi'r trinwyr galwadau ar waith, ni lwydda'r dyfyniad uchod gyfleu'r heriau maent yn gwynebu, yn enwedig rheiny sy'n derbyn galwadau cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017; IOPC, 2023; Iaith ar Waith, 2025). Er mae'r niferoedd o alwadau cyfrwng Cymraeg yn sylweddol llai na'r Saenseg, mae'r manteision a ddaw wrth gynnig gwasanaeth Cymraeg yn holl bwysig, megis yr heriau gwybyddol cysylltiedig â chyfathrebu trwy gyfrwng ail iaith a'r straen emosiynol sy'n gwynebu unigolion wrth gorfod gysylltu gyda'r Heddlu (Madoc-Jones and Buchanan, 2004).

Ar lawr y Ganolfan, un dull a ddefnyddir I fonitro rhediad yr adran ydy'r niferoedd o alwadau nas atebwyd (CGH yn Iaith ar Waith, 2025). Wedi cyfarfod cwarterol diweddaraf yr Iaith ar Waith, caniatâer i mi rannu bod 36% o drinwyr galwadau'r CGH yn gyffyrddus i ateb galwadau cyfrwng Cymraeg sy'n uwch na chyfartaledd gweithlu a'r ABL (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b; CGH yn Iaith ar Waith, 2025; gweler Tabl 2). Serch hynny, amlinella ddata diweddar bregusrwydd y nifer o drinwyr galwadau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael oherwydd cynyddodd y galwadau nas atebwyd i dros 45% cyn y Nadolig i gymharu â 14% ar gyfer galwadau Saesneg (CGH yn Iaith ar Waith, 2025). Amlinella'r data natur anrhagweladwy'r adran megis cynnydd sylweddol o alwadau a'r heriau staffio a ddaeth yn ystod Storm Darragh (CGH yn Iaith ar Waith, 2025).

Yn dilyn gwell ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg; blaenioraethau'r Prif Gwnstabl; a'r heriau a nodwyd eisoes, gellir gweld yr Olwyn Dârn ar waith wrth i gefnogaeth rheolwyr yr adran tuag at y Gymraeg gynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Strubell, 2001 yn Jones a Llwyd, 2024; CGH yn Iaith ar Waith, 2025). Er canfuwyd bod siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn llai tebygol o gwyno pan nad oes cyfle i ddefnyddio'u hiaith wrth dderbyn gwasanaeth, er nid yn swyddogol, mae yna ymdeimlad o fewn yr adran bod siaradwyr Cymraeg yn barod i rannu eu rhwystredigaeth pan nad yw'r wasanaeth yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig (Prys-Jones et al., 2022; CGH yn Iaith ar Waith, 2025). O bosib, mae hyn yn dilyn datblygiadau cyfreithiol ac ymwybyddiaeth o hawliau megis yn dilyn Mesur y Gymraeg a grym y Safonau (Comisiynydd y Gymraeg, 2024; Gruffudd-Jones, 2025). O ganlyniad, credir bod cyfle i ychwanegu elfen at y model sy'n cyfeirio at welliannau a ddaw wrth werthuso safon y gwasanaeth yn dilyn adborth (Strubell, 2001 yn Jones a Llwyd, 2024). Yn ogystal,

er mae'r model yn gwella ar anfanteision modelau megis y GIDS gan Fishman (1991), trwy ystyried agweddau tuag at yr iaith, nid yw'n cyfeirio at effaith darpariaeth y gwasanaeth trwy gyfrwng yr iaith leiafrifol ar y defnyddwyr (Strubell, 2001 yn Jones a Llwyd, 2024). Er byddai'n heriol i wneud yn yr Heddlu oherwydd hanfodion cyfrinachol y gwasanaeth; ond credir byddai clywed yn uniongyrchol am brofiadau cadarnhaol defnyddwyr y gwasanaeth Cymraeg yn llwyddo i gymhell y darparwyr ac o bosib yn llwyddo i gynnig gwahanol naratif yn wahanol i orfodi iaith (Evas, 2025).

O ganlyniad i'r heriau a nodwyd, bwriedir trafod dau gynllun sydd ar y gweill i wella darpariaeth y Gymraeg o fewn yr adran sef gwella systemau technoleg i greu gwell amodau i ill ddau defnyddwyr y gwasanaeth a'r gweithwyr; a chynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg o fewn yr adran (CGH yn Iaith ar Waith, 2025).

Gwella Systemau'r Adran

Gweithredwyd system deleffoni newydd o fewn yr adran i fynd i'r afael â'r heriau a godwyd yn yr adran, gan gynnwys i wella'r ddarpariaeth ar gyfer galwadau cyfrwng Cymraeg (Iaith ar Waith, 2025). Roedd yr hen system yn dargyfeirio galwadau Cymraeg a oedd yn aros yn awtomatig i drinwyr galwadau oedd ar gael (Yr Iaith ar Waith, 2025). Fel arfer, trinwyr galwadau cyfrwng Saesneg oedd yn debygol i'w hateb (Llywodraeth Cymru, 2017; Comisiynydd y Gymraeg, 2024; Iaith ar Waith, 2025). Braf yw nodi bod y canran wedi gostwng i dua 20% (Iaith ar Waith, 2025). Serch hynny, er mae'r system yn sirchrau gwasanaeth Cymraeg i reiny sy'n ei ddymuno, mae'n golygu fod yr amser aros yn cynyddu mewn rhai achosion; gydag un galwad yn aros dros hanner awr cyn ei ateb (Iaith ar Waith, 2025). Yn aml, mae amseroedd aros hir yn codi'r tebygolrwydd bydd y galwr yn diweddu'r galwad cyn eu hateb ac o ganlyniad, yn cynyddu'r canran o alwadau nas atebwyd (Iaith ar Waith, 2025). O ganlyniad, amser a ddengys ynghylch i ba raddau bydd y data'n parhau i wella n'ai beidio, yn enwedig gyda chyfnod mwyaf prysur y flwyddyn ar y gorwel (Iaith ar Waith, 2025).

Yn yr un modd, nid yw'r systemau'n hygyrch ar gyfer y trinwyr galwadau chwaith (Iaith ar Waith, 2025). O ganlyniad i natur hollgymwysedd yr adran, iaith y systemau ydy Saesneg (Iaith ar Waith, 2025). Wrth ateb galwadau Cymraeg, rhaid cofnodi'r wybodaeth yn Saesneg, sy'n sgil cymleth tebyg i gyfieithu ar y pryd (IOPC, 2023; Iaith ar Waith, 2025). Wrth ystyried y ddadl gynt, o bosib, byddai datganoli plismona i Gymru'n rhoi mwy o rym i brofiadau a llais y trinwyr galwadau Cymraeg oherwydd yn aml hyrwyddir y systemau a ddefnyddir gan y Macro, sydd ddim bob tro'n ystyried yr rheiny sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (Kaplan a Baldauf, 1997; Madoc-Jones and Buchanan, 2004; Lewis, 2008; Llywodraeth Cymru, 2017; Jones et al., 2022; Prys-Jones et al., 2022). Er fel arfer cymharir Heddlu Dyfed-Powys gyda llueodd megis Cumbria oherwydd demograffeg yr ABL, ystyrir yn addas i gymharu'r Llu gyda Heddlu Gogledd Cymru ynghylch y Gymraeg oherwydd rhanna'r ddau Lu Siroedd y Cadarnleoedd (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024; HMICFRS, 2019). At hyn, gwyddus fod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru hefyd am gynyddu statws yr iaith trwy briodoli'r Gymraeg fel nodwedd warcharedig ac o ganlyniad, yn atgoffa awduron polisïau ynghylch yr angen ystyried yr iaith a gwella darpariaeth a chydymffurfiaeth gyda'r Safonau fel rhan o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldebau (Gov.Uk, 2010; Heddlu Gogledd Cymru, 2024).

Cynyddu niferoedd o siaradwyr Cymraeg

Cynllun arall sydd ar y gweill ydy cynyddu'r niferoedd o siaradwyr (Iaith ar Waith, 2025). Er mae'r nifer o drinwyr galwadau sy'n medru siarad yr iaith yn uwch na chanran y gymuned ar gyfartaledd,

awgryma'r ffugurau cynt o bosib yr angen meddu ar fwy o siaradwyr, o bosib yn agosach at 40% i adlewyrchu dwysedd uwch rhai o gymunedau'r ABL (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 b; gweler Tabl 2). Er gwaetha'r galw am hyfforddiant Lefel 1 weithio tuag at y DAP ac i gydymffurfio gyda'r lefel disgwyliadol y Llu, oherwydd heriau staffio, cyfaddawdiwyd gyda rheolwyr yr adran i flaenioraethu ymdrechu i fynd i afael â rhai o'r heriau gwyneba'r trinwyr galwadau cyfrwng Cymraeg (Iaith ar Waith, 2025). Gobeithir darparu cyfleoedd i fagu hyder siaradwyr Lefel 3 ac uwch oherwydd derbynia nifer gwynion ynghylch safon eu Cymraeg sydd wedi creu ymdeimlad o 'ddim digon da' sydd wedi dylanwadau'n negyddol ar y nifer sy'n hapus i ateb y galwadau (Iaith ar Waith, 2025). Er enwebwyd enwau gan y rheolwyr, ni dderbynwyd ymateb i'm nghynnig o sgwrs hyd hyn sy'n awgrymu nid oes chwant am gymorth. O ganlyniad, cynnir darparu mewnbwn fel rhan o hyfforddiant cychwynnol y trinwyr galwadau, sy'n debyg i'r hyn a ddarparir eisioes i drosglwyddyddion a swyddogion newydd sef sesiwn ragflas o'r gwersi a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y Safonau a defnyddioldeb y Gymraeg (Lynn and Adlam, 1998 yn Madoc-Jones and Buchanan, 2004; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; 2024 b).

Dull arall a ddefnyddir i gynyddu'r nifer o siaradwyr o fewn yr adran ydy canolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r broses recriwtio (Iaith ar Waith, 2025). Er gwaetha'r ffaith nid oedd siaradwr Lefel 3 nag uwch ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus, gellir ystyried y recriwtiad diweddaraf fel cyfle i uno cynllunio iaith uniongyrchol a datblygiad economeg trwy greu swyddi arbennig i fynd i'r afael â gwella'r ystadegau galwadau Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017; Lewis, 2023). Yn ogystal, ceir cyfle i fanteisio ar raglen ARFOR, sef menter sy'n hybu'r Gymraeg mewn busnesau yng Nghymru, fel datrysiad i'r heriau a nodwyd (Lewis, 2023). Gellid mantiesio ar gyfleoedd i integreiddio cynlluniau eraill y rhaglen megis hysbysebu swyddi'r CGH i reiny sy'n manteisio ar gynnig ARFOR o ddychwelyd i'r ardal (Llywodraeth Cymru, 2017; Lewis, 2023; Williams, 2024). Noda Foulkes & Ackland (2024) fyddai datgonoli plismona i Gymru, o bosib yn galluogi lluoedd i ddenu talent a gwella gyflogau fydd hefyd yn gyfle i fanteisio i gynllunio iaith yn yr un modd (Lewis, 2023).

Heddlu Dyfed-Powys Dwyieithiog

Coda ganlyniadau Adroddiad Blynnyddol diweddaraf y Llu sawl cwestiwn ynghylch y camau nesaf er mwyn creu gweithlu dwyieithog. Wrth ystyried tri thema adroddiad Cymraeg 2050, awgrymir ei fod yn haws a fwy deniadol i gynyddu niferoedd siaradwyr yn hytrach na chynyddu defnydd yr iaith (Brooks, 2025). Wrth ystyried fod lefelau dwy ranbarth yn uwch na lefel y gymuned ar gyfartaledd a'r ffaith a chynnydd hyd yn oed ar gyfer canrannau Swyddogion y rheng flaen, oes dadl i ystyried yr angen i gynyddu lefel Cymraeg disgwyliadol y Llu ar gyfer rhai swyddi, yn enwedig y rheng flaen (Davies, 1994 yn Madoc-Jones and Buchanan, 2004; Iaith ar Waith, 2025). Efallai mae'r cynnydd yn adlewyrchu cynllun 'Uplift' y Macro sydd am gynyddu'r niferoedd o Swyddogion yr Heddlu rhyw 20,000 yng Nghymru a Lloegr (Police Federation, 2023). O ganlyniad, rhagfynegir fydd cynnydd yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn ymgeisio gyda'r Heddlu oherwydd y tuedd sydd i weld canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn y sector cyhoeddus ond hefyd ohrewydd y Bil Cymraeg ac Addysg (Llywodraeth Cymru, 2022; Siôn, 2024; Senedd Cymru, 2024; Glyn, 2024). Gwelwyd cynnydd yn barod gyda am gyfweliadau cyfrwng Cymraeg wrth recriwtio a chanfu 29% o Swyddogion dan hyfforddiant eu bod yn siarad i safon Lefel 3 neu uwch gyda 3 ohonynt i Lefel 5 (Iaith ar Waith, 2025). Serch hynny, gellir archwilio mwyach i weld asesu I ba raddau y mae'r gweithle yn barod i gefnogi defnydd y Gymraeg fel iaith fusnes ar hyn o bryd.

Yn ogystal, wrth ail-ystyried dilysrwydd y data a gyhoeddwn, mae yna atseinion o heriau'r Cyfrifiad, ynghylch y tuedd i danseilio medrau Cymraeg oherwydd 'diffyg hyfer' (Sion, 2024; Iaith ar Waith, 2025). Yn ogystal, yn ddiweddar, mae'n fwyfwy amlwg fod gwahaniaethau yn y ffordd mae gweithwyr yn dehongli'r lefelau, sydd ddim yn her unigryw i Heddlu Dyfed-Powys (Iaith ar

Waith, 2025). O ganlyniad, trafodir yr angen i wella hygrychedd yr adnoddau a ddefnyddir wrth hunanasesu i gymorth y gweithlu (Iaith ar Waith, 2025). O ganlyniad, cwestiynir efallai yn hytrach na chanolbwyntio ar gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg o fewn y Llu, mae angen canolbwyntio'n fwy ar asesu cyson ar draws lluoedd Heddlu Cymru er mwyn casglu gwir data'r medrau law yn llaw gydag hyfforddiant (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; 2024 b Yr Iaith ar Waith, 2025). Er mae asesu medrau Cymraeg yn rhan o swyddi yn Heddlu Gogledd Cymru, byddai ceisio asesu medrau yn Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd yn sgil ABL ddaearyddol mor fawr yn her sylweddol (Yr Iaith ar Waith, 2025). Mae diffyg system asesu cyson hefyd yn ein caethywo i Lefel isel ddisgwyliadol y Gymraeg, yn enwedig wrth ystyried mai Lefel 2 sy'n ddisgwyliedig yn Heddluoedd Gogledd Cymru a De Cymru (Iaith ar Waith, 2025). O ganlyniad, gallai fedrau Cymraeg y Llu fod yn uwch na beth mae'r data'n awgrymu, fyddai o bosib yn newid amcanion cynllun gweithredu'r Strategau ac yn gwella'r hyn gellid cynnig o ran perthnasedd hyfforddiant i'r Llu.

Dadl arall gyfarwydd sydd wedi codi yn y Llu ydy beth yn gwmwys yw gweledigaeth 'gweithle dwyieithog' y Prif Gwnstabl oherwydd nid yw'r diffiniad yn gwbl glir (Lewis yn Jones, 2021; Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a). O ganlyniad, mae'r hen ddadl gyfarwydd sydd ddim yn unigryw i'r Llu, wedi codi ynghylch 'rhuglder a chywirdeb' (Evas, 2025). Er does dim amheuaeth ynghylch pwysigrwydd cywirdeb mewn rhai cyd-destunau, nid yw'r ffin yr un mor amlwg ar gyfer defnydd dysgwyr na defnydd mewnol yr iaith. Her sydd wedi codi wrth i rai ceisio defnyddio'u Cymraeg yn fewnol, ydy'r safon disgwyliedig. Atega'r sefyllfa gyda fy mhryder sef wrth ganolbwyntio ar asesu, crewyd diwylliant a naratif sef yr angen i fod yn 'ddigon da' i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn dadgwneud yr holl gynydd hyd hyn ynghylch 'creu amodau ffafriol' tuag at yr iaith yn y gweithle (Evas, 2025). Yn ogytsal, er mae angen lefelu iaith ar gyfer ymateb yn briodol i ddigwyddiadau gweithdrefnol, mae asesu rhywbeth mor bersonol ag iaith bron yn mynd yn erbyn ei normaleiddio a rhagfynegir gwthio'r gweithlu i'r 'anhrefn' a amlyga'r Model Newid Satir (1991, yn Freeman-Gray, dyddiad anhysbys).

Serch hynny, cynniga Evas (2025) ddatrysiad posib wrth gyflwyno'r cynllun 'Llais' sy'n pwysleisio pwysigrwydd naratif sef y ffordd yr ydym yn siarad am y Gymraeg yn hytrach na gallu ieithyddol (Evas, 2025). Cyfeirwyd at 'Y Dair C' wrth greu naratif am y Gymraeg sef 'cynnes, cynhwysol a chyfeillgar' (Evas, 2025). Ers cyflwyniad Evas (2025), fel rhan o hyfforddiant Cymraeg, hyrwyddir meddylfryd 'Llais' i rymuso dysgwyr i ddefnyddio'r iaith sydd ganddynt yn hytrach na'r iaith 'dylai fod gyda ni ym marn pobl eraill' (Evas, 2025). Wedi'r cyflwyniad, crewyd slogan 'Jesd Rho Gynnig Arni'; ac edrychaf ymlaen yn frwd i weld effaith y slogan ymhen amser (Evas, 2025). O bosib, manteisir ar gyfle i weithredu 'Llais' gydag amcan Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cymraeg sef i hybu ymdrechion y Llu gyda'r cyhoedd (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; Evas, 2025). O bosib, wrth hyrwyddo naratif seiliedig ar 'Y Dair C' a'r slogan gyda'r cyhoedd, o bosib ceir cyfle i'w hannog i ddewis gwasanaeth Cymraeg wrth gysylltu gyda'r Llu; fydd eto'n tanio Olwyn Strubell (2001) gan gynyddu defnyddioldeb yr iaith a'i datblygu ymhellach (Jones a Llwyd, 2024; Evas, 2025).

Dyfodol yr Iaith Gymraeg yn Heddlu Dyfed-Powys

Wrth ystyried y cysyniad y 'shifft ieithyddol' o'r Gymraeg i'r Saesneg yn gymleth yng nghydestun yr Heddlu (Fishman, 1991 yn Jones a Llwyd, 2024). Er o bosib mae'r Gymraeg yn fyw fel iaith gymunedol ar lawr swyddfeydd y Llu ac yn y gymuned yn hanesyddol, efallai cychwynodd y 'shifft' canrifoedd yn ôl gyda'r Deddfau Uno gyda rhai'n disgrifio mai profiad Saesneg ydy plismona yng Nghymru ond gyda gwahanol acen (Ireland, 2015 yn Jones et al., 2022).

O ganlyniad, wrth gyfeirio'n ôl at arwyddocâd dylanwad arweinyddaeth, credir bod statws a diogelwch yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar werthoedd rheiny sydd wrth y llyw mewn sefydliadau oherwydd gyda nhw mae'r grym i ddylanwadu ar naratif y sefydliad tuag at yr iaith (Evas, 2025). Er

gwaethaf datganiad y Prif Gwnstabl gyda chyfeiriad tuag at adroddiad Cymraeg 2050, dadleur heb ddatganoli plismona i Gymru, mae ymdrechion i wrthdroi'r 'shifft ieithyddol' yn gaeth (Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a; Brooks, 2025). Er byddai'n heriol i gasglu data meintiol I brofi gwerth hyn, efallai byddai creu dull asesu gyda meddylfryd Olwyn Dân Strubell (2001) mewn golwg yn well oherwydd byddai'n mynd i'r afael ag asesu defnyddioldeb yr iaith, yn enwedig wrth gymorth trigolion yr ABL (Jones, 2021; Jones a Llwyd, 2024).

Serch hynny, er diogela Safonau'r Gymraeg yr iaith, mae datblygiad y Gymraeg yn y fantol yn y Llu oherwydd cyhoeddwyd ymddeoliad y Prif Gwnstabl (Comisiynydd y Gymraeg, 2024; Heddlu Dyfed-Powys, 2025). At hynny, ystyrir gweithgarwch Llywodraeth Cymru'n gefnogol tuag at y Gymraeg, er atega ganlyniadau etholiadau diweddaraf Lloegr poblogaidd cynyddol Reform UK (Reform, dyddiad anhysbys; Curtice, 2025). Er ni ymleuthiwyd ar y Gymraeg o gwbl o fewn eu polisi, diddorol yw nodi'r awydd i 'Scrap all Diversity, Equality and Inclusion (DE&I) roles and regulations' ym mhlismona sy'n nodweddiadol oherwydd dyma'r adran y Llu â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ar hyn o bryd (Reform, dyddiad anhysbys: 9).

I grynhoi, er does dim amheuaeth ynghylch arwyddocâd ffactorau economaidd ar adfer iaith, o fewn y cyd-destun dan sylw, gellid dadlau mai gwerthoedd arweinwyr y sefydliad sydd â'r dylanwad mwyaf oherwydd gyda nhw y mae'r grym i greu polisiau ond y cyllid i'w gweithredu'n ogystal (Kaplan a Baldauf, 1997; Lewis, 2023). Er byddai rhai'n dadlau ynghylch pwysigrwydd yr iaith i gymharu â blaenioraethau eraill y Llu megis cymorth rheiny'n dioddef camdriniaeth domestig, mae'n anodd dadlau fod iaith yn meddu ar y gallu i greu perthnasoedd cryf rhyngddom, sy'n annatod bwysig wrth ystyried yr amodau sy'n arwain at yr angen i gysylltu gyda'r Heddlu (Lewis, 2008). O ran y cyd-destun dan sylw, dyfyniad wnaeth taro deuddeg i bwysleisio gwerth ayr iaith o fewn yr Heddlu ydy "Mewn byd amherffaith, 'da ni'n trio gwneud y byd bach yn well" (Brooks, 2025).

Llyfryddiaeth

1. Brooks, S. (2025). 'Comisiwn Cymunedau Cymraeg'. [Darlith]. ECDA7009C. PCCyDDS. 10 Mawrth.
2. College of Policing. (dyddiad anhysbys). About Us. [Arlein]. College of Policing. Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.college.police.uk/about#:~:text=to public health-,Our people,Policing across England and Wales.> [Mynediad 19 Ebrill 2025].
3. College of Policing. (2021). Welsh Language Scheme. [Arlein]. College of Policing Ltd. Ar gael: <https://assets.college.police.uk/s3fs-public/2021-06/welsh-language-scheme.pdf> [Mynediad 13 Ebrill 2025].
4. College of Policing (2023). Corporate Strategy 2022-2026. [Arlein]. College of Policing Limited. Ar gael: <https://assets.college.police.uk/s3fs-public/2023-04/College-of-Policing-Corporate-strategy-2022-2026.pdf#:~:text=The ambition of the College, contained in,to cut crime and keep people safe.&text=The review set out three strategic priorities,boost professionalism and drive consistency in policing.> [Mynediad 16 Ebrill 2025].
5. College of Policing. (2024). Ethical policing principles. [Arlein]. College of Policing. Adnewyddiwyd: 24 Ionawr 2024. Ar gael: <https://www.college.police.uk/ethics/code-of-ethics/principles> [Mynediad 12 Mai 2025].
6. Comisiwn Cymunedau Cymraeg. (2024). *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*. [Arlein]. Hawlfraint y Goron. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-08/grymuso-cymunedau-cryfhau-gymraeg.pdf> [Mynediad 18 Mawrth 2025].
7. Comisiynydd y Gymraeg. (2024). Code of Practice for the Welsh Language Standards (No. 7) Regulations 2018. [Arlein]. Comisiynydd y Gymraeg. Ar gael: <https://www.welshlanguagecommissioner.wales/media/shnpahyb/code-of-practice-regulations-no7.pdf> [Mynediad 9 Mai 2025].
8. Curtice, J. (2025). *Sir John Curtice: Reform's sweeping election wins shake Tory and Labour dominance*. [Arlein]. BBC News. Adnewyddiwyd: 02 Mai 2025. Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/news/articles/cqj4k2l20xlo> [Mynediad: 03 Mai 2025].
9. Dyfed-Powys Police. (dyddiad anhysbys). Entry routes into policing. [Arlein]. Dyfed-Powys Police. Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.dyfed-powys.police.uk/police-forces/dyfed-powys-police/areas/careers/careers/police-officer/police-officer-pcep/> [Mynediad 21 Ebrill 2025].
10. Dyfed-Powys Police. (2024). Welsh Language Policy. [Arlein]. Dyfed-Powys Police. Adnewyddiwyd: Rhagfyr 2024. Ar gael: <https://www.dyfed-powys.police.uk/foi-ai/dyfed-powys-police/publication-scheme/our-policies-and-procedures/Policies/people-services-PSD-and-equality--diversity/welsh-language-policy/> [Mynediad 12 Mai 2025].
11. Dyfed Powys Police and Crime Commissioner. (2024). Welsh Language Strategy 2024/2025. [Arlein]. Dyfed Powys Police and Crime Commissioner. Ar gael: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/ls0jfrgk/welsh-language-strategy-final-e.docx> [Mynediad 10 Mai 2025].
12. Dyfed - Powys Police and Crime Commissioner. (2025 a). *Police and Crime Plan 2025-29*. [Arlein]. Dyfed - Powys Police and Crime Commissioner. Ar gael: <https://dppopcc.azurewebsites.net/media/d0gjuu5m/jref26262-crime-plan-2025-29-eng-stp-digital.pdf> [Mynediad 14 Ebrill 2025].
13. Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner. (2025 b). *Police and Crime Plan*. [Arlein]. Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner. Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/en/the-commissioner/police-and-crime-plan/> [Mynediad 14 Ebrill 2025].
14. Electoral Calculus. (dyddiad anhysbys). *Wales: Sorted Seats*. [Arlein]. Electoral Calculus. Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: https://www.electoralcalculus.co.uk/area_wales.html [Mynediad 11 Mawrth 2025].
15. Evas, J. (2025). 'Y Llais' [Darlith], ECDA7009C. PCyDDS. 24 Chwefror 2025.

16. Foulkes, C. & Ackland, E. (2024). Preparing for the devolution of policing in Wales. [Arlein]. Llywodraeth Cymru.Adnewyddiwyd: 18 Mawrth 2024. Ar gael: <https://www.gov.wales/preparing-for-the-devolution-of-policing-html> [Mynediad 19 Ebrill 2025].
17. Freeman-Gray, J. (dyddiad anhysbys). Satir Change Model. [Arlein]. MutoMorro.Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://mutomorro.com/satir-change-model/> [Mynediad 27 Ebrill 2025].
18. Glyn, R. (2024). 'Iaith a Dosbarth Cymdeithasol'. [Darlith]. ECDA7008C. PCCyDDS. 05 Tachwedd.
19. Gov.UK. (2010). Equality Act. [Arlein]. legislation.gov.uk.Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4> [Mynediad 26 Ebrill 2025].
20. Gov.Uk (2018). *The Welsh Language Standards*. [Arlein]. legislation.gov.uk. Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/schedule/1/part/3> [Mynediad: 03 May].
21. Gruffudd-Jones, E. (2025). 'Safonau'r Gymraeg'. [Darlith]. ECDA7009C. PCCyDDS. 03 Mawrth.
22. Heddlu Dyfed-Powys. (2023). *Welsh Language Annual Report 2022 - 2023*. Caerfyrddin: Heddlu Dyfed-Powys Police.
23. Heddlu Dyfed-Powys. (2024 a). *Strategaeth y Gymraeg 2024 - 2027*. Caerfyrddin: Heddlu Dyfed-Powys Police.
24. Heddlu Dyfed-Powys. (2024 b). *Welsh Language Annual Report 2023 - 2024*. Caerfyrddin: Heddlu Dyfed-Powys Police.
25. Heddlu Dyfed-Powys. (2025). Dyfed-Powys Police Chief Constable Set to Retire. [Arlein]. Heddlu Dyfed-Powys Police.Adnewyddiwyd: 07 Ebrill 2025. Ar gael: <https://www.dyfed-powys.police.uk/news/dyfed-powys/news/2025/april-2025/dyfed-powys-police-chief-constable-set-to-retire/> [Mynediad 14 Ebrill 2025].
26. Heddlu Gogledd Cymru. (2024). Welsh language added as a protected characteristic in force. [Arlein]. Heddlu Gogledd Cymru.Adnewyddiwyd: 07 Awst 2024. Ar gael: <https://www.northwales.police.uk/news/north-wales/news/news/2024/august/welsh-language-added-as-a-protected-characteristic-in-force/> [Mynediad 23 Ebrill 2025].
27. HMICFRS. (2019). Data. [Arlein]. HMICFRS.Adnewyddiwyd: 11 Medi 2019. Ar gael: <https://hmicfrs.justiceinspectorates.gov.uk/police-forces/data/> [Mynediad 19 Ebrill 2025].
28. Iaith ar Waith (2025). 'Cyfarfod Cwarterol'. Cyfarfod. 09 Ebrill. Heddlu Dyfed-Powys. Caerfyrddin.
29. IOPC. (2023). Learning the Lessons Issue 41. [Arlein]. IOPC.Adnewyddiwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.policeconduct.gov.uk/learning-lessons-41-call-handling> [Mynediad 4 Mai 2025].
30. Jones, R. (2021). *Moral Duty to Promote the Use of the Welsh Language, says Chief Constable*. [Arlein]. Business News Wales.Adnewyddiwyd: 16 Mawrth 2021. Ar gael: <https://businessnewswales.com/moral-duty-to-promote-the-use-of-the-welsh-language-says-chief-constab> [Mynediad 8 Mai 2025].
31. Jones,R. Harrison,M. Jones,T. (2022). *Policing and devolution in the UK: The 'special' case of Wales*. Policing: A Journal of Policy and Practice. 17(anhysbys), tud.1-13. [Arlein]. Ar gael: <https://academic.oup.com/policing/article/doi/10.1093/police/paac063/6651046?login=true> [Mynediad 23 Ebrill 2025].
32. Jones, E. & Llwyd, C. (2024) 'Datblygu Syniadaeth Cynllunio Iaith' [Darlith], ECDA7008C): Hanfodion Cynllunio Iaith. UWTSD. 14 Hydref.
33. Kaplan, B. & Baldauf, R. (1997). *Language Planning from Practice to Theory*. Clevedon: Multilingual Matters Ltd.
34. Lewis,G. (2008). Hawl i'r Gymraeg. Talybont: Y Lolfa.
35. Lewis,H. (2023). ARFOR a'r 'berthynas rhwng yr economi a'r iaith' – mynd y tu hwnt i'r pennawd. [Arlein]. Arsyllfa Cymru.Adnewyddiwyd: Medi 2023. Ar gael: <https://>

- arsyllfa.cymru/cy/arfor-ar-berthynas-rhwng-yr-economi-ar-iaith-mynd-y-tu-hwnt-ir-pennawd/ [Mynediad 11 Mai 2025].
36. Llywodraeth Cymru. (2015). *Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015: the essentials*. [Arlein]. Llywodraeth Cymru. Adnewyddwyd: 7 Ionawr 2025. Ar gael: <https://www.gov.wales/well-being-future-generations-act-essentials-html> [Mynediad 18 Ionawr 2025].
 37. Llywodraeth Cymru. (2017). *Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr*. [Arlein]. Hawlfraint y Goron. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> [Mynediad 16 Ionawr 2025]
 38. Llywodraeth Cymru. (2022). *Welsh language in Wales (Census 2021)*. [Arlein]. Llywodraeth Cymru. Adnewyddwyd: 6 Rhagfyr 2022. Ar gael: <https://www.gov.wales/welsh-language-wales-census-2021-html> [Mynediad 16 Mawrth 2025].
 39. Llywodraeth Cymru. (2023 b). *The Agriculture (Wales) Act 2023*. [Arlein]. Hawlfraint y Goron. Ar gael: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-11/agriculture-wales-act-2023-introducing-sustainable-land-m> [Mynediad 30 Mawrth 2025].
 40. Madeira, J. (2023). "Can I stop my employees from speaking their native language in the office?". [Arlein]. Lawson-West Solicitors. Adnewyddwyd: 29 Tachwedd 2023. Ar gael: <https://www.lawson-west.co.uk/for-business/services/employment-and-hr-services/articles/can-i-stop-my-employees-from-speaking-their-native-language-in-the-office> [Mynediad 26 Ebrill 2025].
 41. Madoc-Jones, I. & Buchanan, J. (2004). Indigenous people, language and criminal justice: the experience of first langua. Wrecsam: Prifysgol Glyndŵr.
 42. Office for National Statistics (ONS). (2023 a). *How life has changed in Carmarthenshire: Census 2021*. [Arlein]. Office for National Statistics. Adnewyddwyd: 19 Ionawr 2023. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000010/> [Mynediad 12 Ebrill 2025].
 43. Office for National Statistics (ONS). (2023 b). *How life has changed in Ceredigion: Census 2021*. [Arlein]. Office for National Statistics. Adnewyddwyd: 19 Ionawr 2023. Ar gael: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000008/> [Mynediad 12 Ebrill 2025].
 44. Office for National Statistics (ONS). (2023 c). *How life has changed in Pembrokeshire: Census 2021*. [Arlein]. Office for National Statistics. Adnewyddwyd: 19 Ionawr 2023. Ar gael: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000009/> [Mynediad 12 Ebrill 2025].
 45. Office for National Statistics (ONS). (2023 ch). *How life has changed in Powys: Census 2021*. [Arlein]. Office for National Statistics. Adnewyddwyd: 19 Ionawr 2023. Ar gael: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000023/> [Mynediad 12 Ebrill 2025].
 46. Office for National Statistics (ONS). (2023 d). *How life has changed in Cardiff: Census 2021*. [Arlein]. Office for National Statistics. Adnewyddwyd: 19 Ionawr 2023. Ar gael: <https://cy.ons.gov.uk/visualisations/censusareachanges/W06000015/> [Mynediad 12 Ebrill 2025].
 47. Office for National Statistics. (2024 a). Population estimates for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland: mid-2022. [Arlein]. Office for National Statistics. Adnewyddwyd: 26 Mawrth 2024. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2022> [Mynediad 26 Ebrill 2025].
 48. Office for National Statistics. (2024 b). *Crime in England and Wales: Police Force Area data tables*. [Arlein]. Office for National Statistics. Adnewyddwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables> [Mynediad 11 Ebrill 2025].
 49. Police Federation. (2023). Police Uplift Programme: A flawed success story. [Arlein]. Police Federation. Adnewyddwyd: 11 Mai 2023. Ar gael: <https://www.polfed.org/news/latest-news/2023/police-uplift-programme-a-flawed-success-story/> [Mynediad 20 Ebrill 2025].

50. Prys-Jones, M yn Mcload, W. Dunbar, R. Jones, K. & Walsh, J. (2022). *Language, Policy and Territory*. Cham: Palgrave Macmillan & Springer Nature Switzerland.
51. Reform UK. (dyddiad anhysbys). *Our Contract With You*. [Arlein]. Paul Oakden. Ar gael: https://assets.nationbuilder.com/reformuk/pages/253/attachments/original/1718625371/Reform_UK_Our_Contract_with_You.pdf? [Mynediad 11 Mawrth 2025].
52. Senedd Cymru. (2024). Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). [Arlein]. Senedd Cymru. Adnewyddwyd: 11/06/2024. Ar gael: <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=43934> [Mynediad 12 Mai 2025].
53. Sion, C. (2024) - 'Demograffeg' [Darlith], ECDA7008C: Hanfodion Cynllunio Iaith. UWTSD. 21 Hydref.
54. Stats Cymru. (2024). *Average (median) gross weekly earnings by Welsh local areas and year*. [Arlein]. StatsWales. Adnewyddwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianweeklyearnings-by-welshlocalareas-year> [Mynediad 27 Mawrth 2025].
55. United Nations. (dyddiad anhysbys). Universal Declaration of Human Rights. [Arlein]. United Nations. Adnewyddwyd: dyddiad anhysbys. Ar gael: <https://www.un.org/en/about-us/universal-declaration-of-human-rights> [Mynediad 26 Ebrill 2025].
56. Williams, Celyn. (2024). *Up to £5,000 of financial support for families who want to return back to the ARFOR region!*. [Arlein]. Llwyddo'n Lleol 2050. Adnewyddwyd: 18 Medi 2024. Ar gael: <https://llwyddonlleol2050.cymru/en/2024/09/18/up-to-5000-of-financial-support-for-families-who-want-to-return-back-to-the-arfor-region/> [Mynediad 25 March 2025].

Atodiadau

Atodiad 1: Lefelau Cymraeg Gwasanaethau Brys Cymru Gyfan

Ar gael : Cyfarfod yr Iaith ar Waith Gwanwyn 2025 (Cyrchwyd ar: dyddiad anhysbys)

LEFELAU SGILIAU IAITH GYMRAEG

Rhai ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn yr Heddlu	<u>Lefel 1</u>	<u>Lefel 2</u>	<u>Lefel 3</u>	<u>Lefel 4</u>	<u>Lefel 5</u>
<u>Mewn swyddfa</u>	Yn gallu dweud enwau lleoedd/enwau cyntaf Cymraeg neu ddarllen arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg.	Yn gallu deall hanfodion sgwrs Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. tasgau gweinyddu syml neu dasgau rheolaidd.	Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu cymryd a throsglwyddo negeseuon sy'n debygol o godi yn ystod diwrnod gwaith cyffredin.	Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd yn eu maes eu hunain ac yn gallu dadlau o blaid neu yn erbyn achos.	Yn gallu cyfweld ymgeiswyr am swyddi sy'n siarad Cymraeg ac asesu eu haddasrwydd.
<u>Dyletswyddau Swyddogion yr Heddlu</u>	Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol trwy roi gair o Gymraeg ar ddechrau ac ar ddiwedd sgwrs. Yn gallu rhoi a chymryd manylion personol. Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf neu arwyddion Cymraeg yn gywir.	Yn gallu deall hanfodion cais gan aelod o'r cyhoedd ac yn gallu ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddyd a chyfarwyddiadau.	Yn gallu sgwrsio yn rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg i drafod ac i gyflwyno gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau.	Yn gallu ymdrin â'r cyhoedd yn y mwyafrif o sefyllfaoedd yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth ddefnyddio termau plismona / technegol.	Yn gallu ymdrin yn effeithiol â gwrthdaro neu ymholiadau cymhleth gan aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfweld neu holi rhywun fel rhan o ymholiad yn y Gymraeg.
<u>Cownter / Derbynfaf Gorsaf Heddlu/ Ar y ffôn</u>	Yn gallu rhoi cyfarchiad dwyieithog sy'n berthnasol i'r lleoliad. Yn gallu cyfarch ymwelwyr a rhoi dewis iaith.	Yn gallu deall ceisiadau am gymorth ac ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio Cymraeg i drosglwyddo galwad.	Yn gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac hefyd wyneb yn wyneb. Yn gallu cymryd manylion neu nodiadau o sgwrs Gymraeg.	Yn gallu ymdrin ag ymholiadau'n effeithiol. Yn gallu deall gwahanol dafodieithoedd.	Yn gallu ymdrin ag ymholiadau neu gwynion cymhleth neu sensitif gan y cyhoedd a ymdrin yn hyderus â chwestiynau heriol ac anghyfeillgar.
<u>Cyfarfodydd Cyhoeddus / siarad â'r Cyfryngau</u>	Yn gallu agor a chloi cyfarfodydd a chroesawu cyfranwyr yn ddwyieithog.	Yn gallu cyflwyno ei hun ac eraill gan roi enw, rheng, rôl a lleoliad/sefydliad. Yn gallu cyfrannu i gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg.	Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno yn rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, ateb cwestiynau neu gyflwyno gwybodaeth gymhleth.	Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau yn Gymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg ar gyfer termau plismona neu dechnegol	Yn gallu gwneud cyflwyniadau yn Gymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu heriol ac anghyfeillgar yn Gymraeg ar yr amod bod ganddo/ganddi'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol.
<u>Ysgrifennu</u>	Yn gallu ysgrifennu cais syml at gydweithiwr, e.e. A fyddai'n bosib i fi gael...os gwelwch yn dda?	Yn gallu ysgrifennu nodyn byr i gydweithiwr neu rywun y mae'n ei adnabod y tu allan i'r sefydliad.	Yn gallu ysgrifennu memos ac e-negesau mewnol anffurfiol a ymdrin â cheisiadau syml.	Yn gallu ysgrifennu llythyron, negeseuon e-bost a phosteri ar gyfer cwsmeriaid allanol gyda chymorth golygyddol.	Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a gwneud nodiadau llawn a chywir mewn cyfarfodydd yn y Gymraeg.

Atodiad 2: Cynllun Gweithredu Strategaeth Cymraeg Heddlu Dyfed-Powys

Ar gael : Strategaeth Cymraeg Heddlu Dyfed-Powys 2024 - 2017 (Cyrchwyd gan: Heddlu Dyfed-Powys, 2024 a)

Camau Tymor Byr (6 mis)	Sut?
1. Cyfathrebu'r angen i staff a swyddogion ddiweddar eu gallu Cymraeg ar y cofnod iaith mewnol i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'n gywir eu gallu Cymraeg.	- Atgoffir swyddogion a staff newydd i ddiweddar eu sgiliau iaith ac am bwysigrwydd cael y data hwn yn ystod eu cwrs cynefino. - Anfon e-byst at y rhai sydd heb allu o ran y Gymraeg (lefel 0) a'r rhai sydd heb roi'r data hwn yn gofyn iddynt ddiweddar eu lefel yn y Gymraeg. - Adolygu'r broses gwaith papur cyfnod prawf er mwyn sicrhau bod y gofyniad i gyrraedd lefel 1 yn cael ei gydnabod.
2. Targedu ardaloedd sydd â chanran is o swyddogion a staff Cymraeg eu hiaith (Sir Benfro a Phowys), er mwyn cynyddu sgiliau iaith Gymraeg.	- Ymgysylltu â'r rhai sydd â safon is na lefel 3 yn yr ardal hon i ddeall beth yw eu dyheadau a'u hanghenion dysgu. - Trefnu gwersi wedi'u teilwra o gwmpas y dymuniadau a'r anghenion hynny.
3. Cynnal ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o wersi Cymraeg sydd ar gael i staff a swyddogion.	Mae gwersi Cymraeg yn cael eu trefnu'n barhaus yn fewnol ac rydym yn hysbysebu'r cyrsiau hyn trwy'r porth newyddion ac ar ein safle mewnwyd.
4. Sicrhau bod yr Heddlu'n parhau i hyrwyddo a monitro cydymffurfiaid â safonau'r Gymraeg i sicrhau bod yr holl adrannau yn cydymffurfio.	- Sicrhau bod yr Heddlu'n hyrwyddo ac yn monitro cydymffurfiaid a gwneir hynny trwy ymweliadau â'r orsaf h.y. Mawrth Mawr a negeseuon atgoffa i reolwyr llinell trwy gyfathrebu mewnol. - Defnyddio Hyrwyddwyr Cymraeg er mwyn cefnogi ymarferion hap samplu.
5. Cydlynu ymgyrch i'r cyhoedd ymhlith cymunedau i godi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gan yr Heddlu.	Hysbysebiri y gwasanaethu hyn yn ystod digwyddiadau megis Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, yr Eisteddfod a Dydd Gŵyl Dewi.
Camau Tymor Canolig (1 flwyddyn)	Sut?
6. Cynyddu dealltwriaeth y gweithlu o Safonau'r Gymraeg.	- Mae pob recriwt newydd yn derbyn hyfforddiant wyneb yn wyneb ac mae aelodau staff newydd yn gwylio fideo cynefino, a bellach, mae'n rhan o'r Cwrs Meistr AD. - Rhannu mwy o ohebiaeth fewnol. - Defnyddio Hyrwyddwyr Cymraeg i gefnogi eu cydweithwyr a'u hatgoffa am y safonau.
7. Cynyddu argaeledd cyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan yr Heddlu er mwyn cyfoethogi'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael	Byddwn yn gweithio gydag adran hyfforddi'r Heddlu i gynyddu nifer y cyrsiau a gynigiwn a byddwn yn hysbysebu'r cyrsiau hyn yn fewnol ar gyfer recriwtiaid newydd a gweithwyr

trwy gyfrwng y Gymraeg.	eraill.
8. Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a swyddogion ynglŷn â'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.	• Byddwn yn hysbysebu'r cyrsiau hyn yn fewnol ar gyfer recriwtiaid newydd a gweithwyr eraill, a'r gobaith yw y bydd y nifer sy'n mynychu yn cynyddu. • Mynd i rai o'r cyrsiau hyfforddi i drafod unrhyw bryderon sydd gan siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â dewis cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
9. Adolygu'r holl gyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cyflenwi gan yr Heddlu'n rheolaidd, gyda'r bwriad o wreiddio gwybodaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a chydymffurfiaid â Safonau'r Gymraeg lle bynnag fo hynny'n bosibl.	• Mae hwn yn ddarn o waith a fydd angen cydweithrediad adran hyfforddi'r Heddlu er mwyn adnabod meysydd addas ar gyfer gwreiddio hyn.
10. Ymgymryd ag archwiliad blynyddol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cyflenwi gan yr Heddlu i sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei gynni.	• Gellid cynnal hyn o bosibl gan gwmni allanol/un o heddluoedd eraill Cymru er mwyn cael darlun clir a realistig o le'r ydym ni o ran y gwasanaethau a gynigir. • Gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ganfod unrhyw strwythur archwilio maen nhw'n argymhell ei ddefnyddio.